Adroddiad Blynyddol Chapter 2008

Mae Chapter (Cardiff) Limited yn elusen gofrestredig a chwmni wedi'i gyfyngu trwy warant. Adroddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31ain Mawrth 2008.

Cwmni cofrestredig: rhif 1005570 / Elusen gofrestredig: rhif 500813



Chapter (Cardiff) Limited (cwmni wedi'i gyfyngu trwy warant)

Adroddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31ain Mawrth 2008

Cwmni cofrestredig, rhif 1005570
Elusen gofrestredig, rhif 500813

CYNNWYS

Arolwg gweithredu - Janek Alexander, Cyfarwyddwr	1
Adroddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr	7
Aelodau'r bwrdd a chynghorwyr proffesiynol	12
Adroddiad yr archwilwyr - Gordon Sealey & Associates	13
Datganiadau ariannol	15
Nodiadau ar y datganiadau ariannol	17

NODYN:
At bwrpasau'r gyfraith elusennol, cyfarwyddwyr y cwmni elusennol ('yr Elusen') yw ei ymddiriedolwyr ac yn eu hadroddiad nhw drwyddi draw cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel ymddiriedolwyr.

Chapter (Cardiff) Limited – Rhif cofrestredig 1005570 – Rhif elusen 500813

Adroddiad gweithredu 2007/08

Adroddiad Janek Alexander, Cyfarwyddwr Chapter, ar weithgarwch yr elusen dros y flwyddyn ddiwethaf.

Amcan Chapter yw i alluogi i'r amrywiaeth ehangaf o bobl gael profiad o'r celfyddydau ac i ddatblygu ffurfiau celfyddydol cyfoes. Yn 2007/08, roedd gweithgareddau'r elusen yn cynnwys y canlynol:

- comisiynau, cynlluniau preswyl i artistiaid, cynyrchiadau, teithiau a phrosiectau wedi'u cydlynu gan Chapter;
- digwyddiadau, perfformiadau ac arddangosfeydd;
- gweithgareddau estyn allan - arddangosfeydd, teithiau, gwaith addysgol, cyhoeddi, mentora a chynghori;
- hyrwyddo cymryd rhan trwy ddosbarthiadau, gweithdai, cynyrchiadau ysgol, perfformiadau dawns i bobl ifainc, digwyddiadau cymunedol a theatr amatur.

Bu'r elusen yn gyfrifol am reoli gofod cyhoeddus ar gyfer gweithgarwch cymunedol gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, yn cynnwys sefydliadau celfyddydol, sefydliadau sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol eraill, yn arbennig grwpiau difreintiedig.

Mae'r gymysgedd eclectig hon o weithgareddau yn galluogi i Chapter gyflwyno rhaglenni artistig arloesol ar y cyd â chyfrannu i fywyd y gymuned.

"R'yn ni'n cynnal ein digwyddiadau ni yn Chapter oherwydd bod y gefnogaeth gan staff Chapter yn rhyfeddol…. Mae'r cyfleusterau'n dda ac mae'r ganolfan yn hygyrch. Fel grŵp amlddiwylliannol, r'yn ni'n mwynhau'r amrywiaeth o bobl sydd yn defnyddio'r ganolfan a'r awyrgylch cyfeillgar. R'yn ni'n cael croeso cynnes yno bob amser."

(Gweithiwr Plant, Barnardos)

Adnewyddu

"Dw i'n gwerthfawrogi rôl werthfawr Chapter wrth hyrwyddo'r celfyddydau a busnes creadigol yn y gymuned leol." (Ieuan Wyn Jones, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2008)

Wrth fynd ati i greu canolfan yr elusen, sicrhaodd Chapter bod adeiladau oedd yn dadfeilio yn cael defnydd cyhoeddus. Mae angen gwaith atgyweirio sylweddol ar yr adeilad mwyaf, y ganolfan gelfyddydau, ac er lles ein datblygiad yn y dyfodol mae angen cynyddu a gwella'r cyfleusterau cyhoeddus.

Cytunwyd ar gynlluniau gan y penseiri Ash Sakula (www.ashsak.com) ddiwedd 2007. Daeth proses dendro agored, wedi'i rheoli gan CPC Limited, i ben wrth i ni benodi'r contractwyr o Lanelli, Grŵp WRW. Dechreuodd gwaith ar y prosiect ar Fehefin 30ain 2008.

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr y dylid cadw'r ganolfan gelfyddydau ar agor er mwyn cynnal momentwm ein masnach a'r gwaith o ddatblygu'n cynulleidfa, er mwyn gwasanaethu ymwneud cynyddol y sector gwirfoddol â'n cyfleusterau ac, yn allweddol, er mwyn cynnal ein cefnogaeth i artistiaid.

Mae rhaglen waith Chapter wedi parhau trwy gydol y flwyddyn hon o adnewyddu. Er mwyn llwyddo yn hyn o beth, roedd angen newidiadau corfforol i'n gofodau, newidiadau i'r rhaglen, ail-leoli swyddfeydd a gwella'r Llofft ymarfer. Bu'r newidiadau hyn yn fodd i sicrhau y byddai'r Stiwdio oddi tano'n gweithredu fel prif ganolfan gyhoeddus dros dro ac y gellid adleoli'r caffi a'r bar.

Wrth greu cynlluniau ar gyfer yr adeiladau, ymgynghorodd Chapter â nifer helaeth o randdalwyr er mwyn dysgu am eu hanghenion gwahanol nhw ac fe gomisiynwyd ymchwil marchnad i asesu ymateb i'r newidiadau arfaethedig.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r cyfrannwr pennaf i'r prosiect ac fe gafwyd grant o £1.75m ganddynt tuag at gostau adeiladu a nawdd pellach ar gyfer datblygu'r prosiect. Mae cyfraniadau o bwys wedi hynny'n cynnwys £200,000 gan CFAP a £193,369 gan Landfill Community Fund.

Mae cyfranwyr o bwys eraill, yn lleol a chenedlaethol, yn cynnwys: Colwinston Charitable Trust, Follett Trust, Foundation for Sport and the Arts, Garfield Weston Foundation, Gibbs Charitable Trust, Jane Hodge Foundation, Oakdale Trust, Simon Gibson Charitable Trust, Trusthouse Charitable Foundation a UK Film Council. Mae'r gwaith codi arian yn mynd yn ei flaen ac rydym yn aros i glywed penderfyniadau ar nifer o geisiadau pwysig ac yn disgwyl twf cyson yn y diddordeb o du unigolion ac ymddiriedolaethau llai.

Celfyddydau gweledol

Creodd Chapter lawer mwy o gyfleoedd i artistiaid dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn cefnogi gwaith proffesiynol artistiaid ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd, roedd mentrau 2007 yn cynnwys rhaglen deithiol o arddangosfeydd; cynllun preswyl 'Astudio ac Aros' i raddedigion lleol; prosiectau cyfnewid ac arddangosfeydd rhyngwladol; amrywiaeth o stiwdios i artistiaid. Mae rhaglen barhaol 'Cynulliad: Celfyddyd yn y Bar' o osodiadau, gweithredoedd, ffotograffiaeth a gwaith clyweledol oll wedi defnyddio prif ofodau cyhoeddus y ganolfan yn llwyddiannus iawn ac mae'r celfyddydau gweledol yn bresennol yn y ganolfan y tu hwnt i waliau'r oriel.

Yn rhan o'r polisi o hyrwyddo artistiaid Cymreig a datblygu rhwydweithiau rhyngwladol, bu Hannah Firth, curadur Celfyddydau Gweledol Chapter, yn gyfrifol am guradu Pafiliwn Cymru yn Venice Biennale 2007. Roedd y sioe honno'n llwyddiannus iawn ac fe aethpwyd â hi ar daith i orielau Cymru wedi hynny.

"…nid yn y Pafiliwn Prydeinig y mae'r cyfraniadau gorau. Cerddais i mewn i'r pafiliwn Cymreig, wedi'i osod ar gyrion y biennale ar ynys Giudecca, a ches weld sioe wefreiddiol."
(Waldemar Januszczak, Sunday Times, 17eg Gorffennaf 2007)

Cafodd arddangosfa unigol gyntaf Anthony Shapland, 'Suddenly After a Long Silence', dderbyniad gwresog hefyd yn ystod 2008 – fe'i comisiynwyd hi gan Chapter.

"Yn yr arddangosfa drwyddi draw mae Shapland yn cael ei ddenu i'r gofodau barddonol sydd yn bodoli rhwng dydd a nos, golau a thywyllwch… arddangosfa afaelgar a dynol."
(Elisabeth Mahoney, Guardian)

Roedd 'Flashes From The Archives Of Oblivion' gan Stuart Brisley, Ian Hinchliffe, Alastair MacLennan a Tatsumi Orimoto yn arddangosfa o ddogfennau a gweithiau celfyddydol gan bedwar o arloeswyr celfyddyd perfformio Prydeinig yn yr 1960au – grŵp y cafodd ei waith ddylanwad pellgyrhaeddol ar y ffurf. Cafwyd tystiolaeth glir o berthnasedd parhaol y gwaith hwnnw wrth i dyrfaoedd sylweddol ddod i weld perfformiad byw ar benwythnos cynta'r arddangosfa.

Sinema

Yn 2007, cyhoeddodd Manchester University Press y gyfrol *Mike Leigh*, wedi'i hymchwilio a'i hysgrifennu gan raglennydd sinema Chapter, Tony Whitehead. Mae'r llyfr yn astudiaeth awdurdodol o un o gyfarwyddwyr mwyaf nodedig a llwyddiannus y Deyrnas Gyfunol. Daeth Mike Leigh i Chapter ym mis Mehefin 2008 i gael ei gyf-weld ar achlysur dangos ei ffilm *Happy Go Lucky.*

Ar gyfer yr National Schools Film Week (15fed-19eg Hydref 2007), mynychodd 735 o ddisgyblion o ysgolion ar hyd a lled de Cymru (gan gynnwys Port Talbot, Pen-y-bont, Treganna, Cwmbrân, Abertawe, Penarth, Pontyclun, yr Eglwys Newydd a Chaerffili) ddangosiadau yn Chapter o *Notes on a Scandal*, *Monster House*, *Days of Glory*, *Pan's Labyrinth* a *Last King of Scotland*. Ar ôl y dangosiad o *Monster House,* cafwyd darlith gan y British Board of Film Classification (BBFC). Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i fynychu sesiwn 'Cwrdd â'r Beirniad' gyda Gavin Allan o'r Western Mail.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai addysgol yn seiliedig ar brosiect ffilm yr Headlands Coeducational Special School, mewn ysgolion ledled Cymru. Comisiynwyd y ffilm, a grëwyd gan Karl Francis a Patrick Jones, gan Chapter ac roedd disgyblion ysgol yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd.

Gwobr Iris (Hydref 2007) – Chapter a Cineworld oedd prif ganolfannau Gwobr Iris, y wobr ryngwladol ar gyfer ffilmiau byrion hoyw a lesbiaidd. Roedd yr ŵyl yn cynnwys rhaglen o ffilmiau nodwedd, sesiynau arbenigol, sgyrsiau a dangosiadau o'r 30 ffilm fer ar y rhestr fer.

Dechreuwyd ar y gwaith ymchwil ar gyfer sefydlu "Academi Sinema" i bobl ifainc. Cynhaliodd staff y sinema gyfarfodydd â threfnwyr academi sinema ym Merlin yn nigwyddiad Europa Cinemas yn gynnar yn 2008 ac fe gynhelir cyfarfod pellach ym Merlin cyn diwedd y flwyddyn.

Chapter yw'r unig ganolfan sinema yng Nghymru a chanddi ymrwymiad llawn-amser i raglennu ffilmiau diwylliannol, dwy sgrin benodol ar gyfer hynny, rhaglen addysgol, cefnogaeth gan Europa Cinemas a'r gallu i ddefnyddio offer taflunio digidol ansawdd uchel.

Mae Europa Cinemas yn rhwydwaith o 685 o sinemâu mewn 42 o wledydd. Bu Chapter yn aelod ers 1992; crëwyd mentrau i gynulleidfaoedd ifainc, rhoddwyd gwell dewis i fynychwyr a bu'r cynllun yn fodd i gefnogi ffilm Ewropeaidd.

Y celfyddydau perfformio

Mae Theatr Chapter yn cyflwyno rhaglen rownd y rîl o brosiectau celfyddyd perfformio (rhai bach a mawr fel ei gilydd) o Gymru, y Deyrnas Gyfunol a gweddill y byd. Y mae'n gweithio ar y cyd â gwyliau rhyngwladol o bwys a chanolfannau celfyddydol er mwyn hyrwyddo a chynhyrchu gwaith gan artistiaid mwyaf blaengar y maes, gan ganolbwyntio ar

theatr gyfoes arloesol yn ogystal â chodi llais dros artistiaid ifainc o Gaerdydd a Chymru. Yr amcan yw creu amgylchiadau cynaliadwy y gall artistiaid annibynnol ymroddedig ddatblygu'u crefft a'u gwaith ynddynt.

Croesawodd Chapter artistiaid o Gymru, Lwcsembwrg, Montréal, a Torino yn rhan o raglen Rhwydwaith Dawns 2008. Rhoddwyd sylw penodol i berfformwyr o Japan mewn tymor wyth mis o hyd o ddigwyddiadau a ddechreuodd yn Chapter â chyflwyniad gan Oriza Hirata, dramodydd a chyfarwyddwr cyfoes mwyaf nodedig Japan.

Cyflwynodd yr ymchwilydd Heike Roms yr ail yn ei chyfres hi o sgyrsiau byw ar ddatblygiad y maes perfformio yng Nghymru. Ymunodd y cyfarwyddwr theatr Mike Pearson a chyfarwyddwr *Moving Being,* Geoff Moore, â chyfarwyddwr Chapter, Janek Alexander i drafod dylanwad cynnar Chapter ar ddatblygiad y celfyddydau cyfoes yng Nghymru. Cyhoeddir *What's Welsh for Performance? Volume II* yn 2008.

Bob blwyddyn mae Chapter yn croesawu rheolwyr ifainc byd y celfyddydau yn rhan o'i gynllun datblygiad proffesiynol. Mae'r rhaglen hon wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer rheolwyr fydd yn gweithio ar lefel ryngwladol ac mae'r cynllun wedi rhoi cyfleoedd i unigolion o Rwsia, Tsieina, Japan, Croatia, yr Almaen a Sweden gymryd rhan. Daeth Inza Lim o Seoul, De Corea, i gymryd rhan yn y rhaglen yn 2007.

Cafwyd prawf arbennig o allu Chapter i raglennu digwyddiadau ymhob un o'r prif ffurfiau celfyddydol ac i ymateb i geisiadau arloesol gan artistiaid yn y bartneriaeth â Gŵyl Sŵn, digwyddiad cerddoriaeth roc o bwys yn hyrwyddo 123 o grwpiau mewn 11 canolfan yng Nghaerdydd, yn cynnwys 23 o ddigwyddiadau yn Chapter. Roedd cyfle i'r sawl oedd yn mynychu'r ŵyl yn Chapter weld rhaglen o ffilmiau penodol hefyd, yn ogystal â setiau gan DJs Sŵn a gwaith o gelfyddyd weledol gan Pete Fowler, artist/dylunydd grŵp Super Furry Animals, wedi'i gomisiynu'n benodol at yr achlysur.

Cymuned Chapter

Ers 1971 bu Canolfan Gelfyddydau Chapter yn fan cyfarfod i bobl a syniadau. Mae Chapter heddiw yn o brif sefydliadau celfyddydol amlddisgyblaethol y Deyrnas Gyfunol, yn ganolfan o bwys ar gyfer celfyddyd gyfoes Ewropeaidd ac yn ffenomenon cymdeithasol.

Mae Chapter wedi cefnogi artistiaid dylanwadol ar ddechrau'u gyrfaoedd ac wedi sefydlu enw da'n rhyngwladol am ei waith arloesol. Y mae wedi annog pobl o bob oed ac o bob cefndir i ymwneud â'r celfyddydau a daeth i fod yn rhan annatod o dirlun diwylliannol Cymru.

Mae Chapter ar agor bob dydd ac yn cynnig gweithgareddau bob awr o'r dydd yng ngwahanol rannau'r ganolfan. Rhennir y gofod cyhoeddus ag unigolion a grwpiau cymunedol fel bo modd ymwneud â gweithgarwch diwylliannol ar sawl lefel. Mae yna fentrau arbennig i gefnogi grwpiau difreintiedig, o bobl ag anableddau i grwpiau arwahanedig fel menywod o leiafrifoedd ethnig, menywod â phlant ifainc a phlant ysgol y mae eu hymddygiad yn heriol.

Mae adeilad Chapter yn hygyrch i bobl anabl ac yn cynnwys *induction loops*, toiledau y gellir mynd iddynt mewn cadair olwyn, lifft rhwng lloriau a gofod parcio pwrpasol a phenodol.

"Dw i'n defnyddio Chapter yn weddol reolaidd fel cwsmer ac yn rhinwedd fy swydd, yn cynrychioli Cyngor Deillion Cymru… Dw i'n ymwybodol o'r manteision uniongyrchol sydd yn deillio o allu llogi gofod yn Chapter."

Cyraeddiadau nodedig eraill

Roedd blwyddyn gyntaf Chapter Trading Limited, y cwmni a grëwyd gan yr elusen i reoli'r caffi a'r bar, yn llwyddiannus iawn ac fe gyfrannwyd £65,713 i'r brif elusen. Talwyd £88,941 pellach i'r elusen mewn costau rheoli.

Un o dasgau pennaf y flwyddyn fu ymgynghori a chyfathrebu â'r grwpiau gwahanol sydd yn defnyddio Chapter i sôn am am y gwaith adnewyddu ac i'w hannog nhw i roi'u barn ar y cynlluniau. Roedd yr ymgynghori hwn yn cynnwys 21 dogfen ymchwil ac amrywiaeth o fentrau'n cynnwys diwrnodau agored, llyfrynnau, llythyrau i drigolion lleol, holiaduron a grwpiau ffocws. Derbyniwyd nifer o ddatganiadau cefnogol yn ystod y broses ymgynghori ac roedd amrywiaeth y sylwadau hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y gwaith a wneir yn Chapter.

"…mae'n gynhwysol ac mae ein haelodau'n teimlo'n gartrefol yno."

Susan Edwards, Ysgrifenyddes, Prosiect Enfys De Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb i bobl Hoyw Lesbiaidd Deurywiol a Thrawsrywiol

"Heb Chapter, fyddwn i ddim wedi gallu creu'r busnes dw i'n gyfrifol amdano heddiw. Ces i'r syniad gwreiddiol flwyddyn yn ôl ond roedd angen cymorth ymarferol arnaf i'w ddatblygu a does unman yng Nghaerdydd – dim ond Chapter – fyddai wedi caniatáu a galluogi i rywun fel fi droi fy syniad yn realiti."

Chris Evans, Go Faster Stripe

"Mae cefnogaeth Chapter yn ffantastig ar gyfer fy ngyrfa i fel awdur ac actores"
Sharon Morgan, Awdur, Actor, Artist

"Mae Chapter wedi newid fy mywyd"

Joanna Quinn, Animeiddiwr Rhyngwladol

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Yn 2006 cafwyd adolygiad gan yr ymddiriedolwyr o bolisi llywodraethu'r elusen yn rhan o'r broses o sicrhau bod prosesau a strwythurau'r elusen yn dal i fod yn addas a pherthnasol.

Hysbysebwyd swydd Cadeirydd yn ystod Hydref 2007. Daeth panel o ymddiriedolwyr, staff a Chadeirydd annibynnol at ei gilydd i gyf-weld ag ymgeiswyr ar y rhestr fer. Cyflwynwyd argymhelliad y panel mewn cyfarfod arbennig o'r bwrdd ac fe benodwyd John Matthews i'r

Gadeiryddiaeth. Cafwyd cryn ddiddordeb hefyd yn dilyn hysbysebion i ddod o hyd i aelodau newydd o'r bwrdd.

Targedau ac Allbynnau 2007/08

Targed	Allbwn
200 digwyddiad byw (theatr, cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, trafodaethau)	206 digwyddiad byw (theatr, cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, trafodaethau)
6 arddangosfa o gelfyddyd weledol	6 arddangosfa o gelfyddyd weledol (ynghyd ag 8 Cynulliad: Celfyddyd yn y Bar)
Cefnogaeth i 40 artist neu sefydliad artistig yn y stiwdios	Cefnogaeth i 40 artist neu sefydliad artistig yn y stiwdios
1,686 o ddangosiadau ffilm (gwerthiant tocynnau o 52,128)	1,687 o ddangosiadau ffilm (gwerthiant tocynnau o 51,572)
Parhau â threfniannau partneriaeth i hyrwyddo gwyliau yn y ddinas	Gwyliau a gefnogwyd yn cynnwys: Sŵn, Queer Cymru, Gŵyl Ddawns Gorwelion / Horizons
1500 o sesiynau gweithdy (dosbarthiadau dawns, ayyb)	1678 o weithdai a digwyddiadau di-docyn
100 o grwpiau gwirfoddol a grwpiau celfyddydol cymunedol i ddefnyddio'r ganolfan	115 o grwpiau gwirfoddol a grwpiau celfyddydol cymunedol yn defnyddio'r ganolfan
5 person ifanc ar brofiad gwaith	4 disgybl ysgol ar gynlluniau profiad gwaith
400,000 o ymweliadau â'r ganolfan	Cafwyd oddeutu 500,000 o ymweliadau â'r ganolfan gelfyddydol
Cynhyrchu 6 chatalog celfyddyd weledol	Cynhyrchwyd 3 chatalog celfyddyd weledol
Cynhyrchu 10 cylchgrawn o ddigwyddiadau misol	10 cylchgrawn wedi'u cynhyrchu
28 o weithiau comisiwn ysgrifenedig (Cymraeg a Saesneg)	25 o weithiau ysgrifenedig wedi'u comisiynu (Cymraeg a Saesneg)
373,057 o ymweliadau unigryw â www.chapter.org	514,789 o ymweliadau unigryw â www.chapter.org

Mae'r ffigyrau hyn yn gipolwg ar y lefelau gweithgarwch ledled y ganolfan; gellir cael hyd i fanylion pellach am fesurau a thargedau'r cynllun busnes yn adroddiadau rheolaeth yr elusen.

Crynodeb

Y prosiect adnewyddu yw'r digwyddiad mwyaf sylweddol yng nghynllun Chapter. Roedd angen ymrwymiad manwl a phenodol gan y sefydliad cyfan yn hynny o beth – ac fe fydd angen yr un ymrwymiad hwnnw yn y dyfodol.

Mae'r elusen wedi llwyddo i ymateb i ofynion cymhleth y broses adnewyddu a pharhau ar yr un pryd i ddarparu rhaglen gelfyddydol unigryw'r ganolfan ac i wella gwasanaethau.

JANEK ALEXANDER
CYFARWYDDWR CHAPTER

Adroddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno'i adroddiad blynyddol ynghyd â thrafodion ariannol cyfunol wedi'u harchwilio ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31ain Mawrth 2008. Mae'r adroddiad yn cyfuno canlyniadau Chapter (Cardiff) Limited a'r is-gwmni, Chapter Trading Limited, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y fan hon fel Chapter. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion statudol presennol a'r Datganiad ar Arferion Cymeradwyedig 2005.

Amcanion a gweithgarwch

Mae Chapter wedi parhau i gyflawni'r amcanion a nodir ym Memorandwm ac Erthyglau'r Gymdeithas. Cyfunwyd yr elusen er mwyn hyrwyddo, cynnal, gwella ac arwain addysg, yn arbennig felly trwy geisio datblygu chwaeth gelfyddydol y cyhoedd.

Bu'n bolisi gan Chapter i gefnogi sefydliadau celfyddydol ac artistiaid ar y cyd â darparu rhaglenni cyhoeddus o gelfyddyd gyfoes, ym meysydd ffilm, theatr a'r celfyddydau gweledol yn bennaf. Nid yw'r polisi hwn wedi altro dros y flwyddyn dan sylw yn y fan hon.

Ceir disgrifiad manwl o weithgarwch a chyraeddiadau Chapter dros y flwyddyn yn adroddiad gweithredu'r Cyfarwyddwr.

Cyraeddiadau a pherfformiad ariannol

Gwelir y canlyniadau cyfunol ar dudalen 15 ac maent yn dangos gwarged o £74,204 ar gyfer y flwyddyn (*2007: gwarged o £95,403*). Roedd y diffyg o ran y cronfeydd arian digyfyngiad yn £38,313 (*2007: diffyg o £6,499*).

- Derbyniwyd incwm gwirfoddol o £2,114,686 (*2007: £2,051,167*)
    - Roedd hyn yn cynnwys incwm o weithrediad masnachol o £890,903 (*2007: £819,638*), a
    - grantiau a rhoddion gwerth £945,322 (*2007: £951,513*), ac
    - incymau eraill o £278,461 (*2007: £280,016*)

- Roedd yr incwm o weithgareddau elusennol yn £271,967 (*2007: £267,705*)

Llwyddodd Chapter Trading Limited i sicrhau elw cyn treth yn ystod blwyddyn gyntaf ei gweithrediad – yr elw hwnnw'n werth £65,713. Gwnaed rhoddion o £65,713 trwy Gymorth Rhodd i'r elusen. Talodd Chapter Trading Limited ffioedd rheoli gwerth £88,941 i'r elusen hefyd.

Mae grantiau gan gyrff cyhoeddus ar gyfer costau gweithgarwch refeniw yn ffynonellau incwm pwysig i'r elusen. Nodir symiau'r grantiau a dderbyniwyd yn 2007/08 ac yn y flwyddyn flaenorol uchod ac mewn mwy o fanylder yn nodyn 2 ar dudalen 18 y cofnodion hyn. Dyfernir y grantiau hyn yn flynyddol ond mae'r elusen wedi cytuno ar nifer o gytundebau ariannu hir-dymor fydd yn galluogi i'r sefydliad gynllunio y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf. Cytunodd Cyngor y Celfyddydau ac Asiantaeth Ffilm Cymru ar gynlluniau ariannu tair-blynedd, yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd strategol Chapter. Cyflwynodd Cyngor Sir Caerdydd gytundeb ariannu newydd sydd yn cydnabod ac yn cadarnhau pwysigrwydd Chapter i fywyd y ddinas.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r elusen godi £900,000 mewn grantiau ar gyfer gweithgarwch refeniw i gefnogi'i waith celfyddydol ac addysgol. Isafswm yw'r ffigwr hwn a gall y cyllidebau sinema, theatr a chelfyddydau gweledol gynyddu'n sylweddol wrth i brosiectau newydd (e.e. gwyliau ffilm, cynyrchiadau a chomisiynau theatr) gael eu cynnwys yn y portffolio a denu cymorth refeniw prosiect. Yn ystod y flwyddyn, mae'r grantiau wedi lleihau unwaith eto ond rydym wedi cadw cyllidebau'r gwahanol raglenni ar yr un lefelau â llynedd gan ariannu'r diffyg o'n hadnoddau ni.

Mae'r National Lottery yn ffynhonnell incwm bwysig i'r celfyddydau ac fe fanteisiodd Chapter ar y nawdd hwn. Mae defnydd y Llywodraeth o arian loteri i ariannu gemau Olympaidd 2012 yn ei gwneud hi'n anodd i nifer o sefydliadau ac elusennau celfyddydol; y disgwyl yw y caiff grantiau newydd eu lleihau ac y bydd hyn yn ei gwneud hi'n anos i Chapter godi arian yn y blynyddoedd nesaf.

Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol

Mae'r galw am waith yr elusen wedi cynyddu ac mae hyn wedi golygu pwysau cynyddol ar y gofodau cyhoeddus. Un o'r amcanion pennaf yw sicrhau bod adnoddau Chapter wedi'u trefnu fel y gellir gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohonynt, er budd ein cwsmeriaid presennol ac fel y gellir denu defnyddwyr newydd hefyd.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, ym mis Mai 2008, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i weithredu cynllun adnewyddu ar gyfer y Ganolfan Gelfyddydau yn Nhreganna, Caerdydd. Cyllideb gros y gwaith adnewyddu yw £3.3m ac, wrth i'r adroddiad hwn gael ei baratoi, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar wariant gwerth £3.1m. Caiff yr ardaloedd cyhoeddus eu hadnewyddu yn ystod 2008-2009 ac fe fydd arwynebedd gros y lloriau yn cynyddu o 4980 metr sgwâr i 5204 metr sgwâr. Bydd y cynhwysedd estynedig hwn ynghyd â gwelliannau i'r gofodau arddangos o fudd i bob defnyddiwr. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn gwella'r cyfleoedd i fasnachu gan alluogi i'r elusen a'r cwmni masnachu gynyddu incwm gwirfoddol ac felly atgyfnerthu cynaliadwyedd Chapter.

Polisi ar gronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn Chapter yn ddigon iach ar hyn o bryd – ar 31 Mawrth 2008 roeddent yn werth £1,047,798. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cronfa ag arni gyfyngiadau gwerth £682,917 a chronfa ddigyfyngiad o £364,881. Mae'r cronfeydd ag arnyn nhw gyfyngiadau yn cynrychioli nawdd a dderbyniwyd ar gyfer prynu rhyddfraint yr adeilad, gwaith adnewyddu cyfalaf ac, yn fwy diweddar, yr ailddatblygu presennol o'r adeiladau prydles. Mae'r gronfa gyfyngedig hon yn cael ei throsglwyddo i'r gronfa ddigyfyngiad dros gyfnod bywyd yr asedau, i gyfateb â chostau dibrisiant.

Mae'r sefyllfa hon yn galluogi i'r Elusen wneud ymrwymiadau hir-dymor i brosiectau ac i warchod ei gwaith yn erbyn amrywiadau ariannol. Yn ogystal â hyn, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried yn flynyddol y risgiau ariannol sydd ynghlwm â'r ffrydiau incwm a gwariant a'r eitemau ar y fantolen ac yn gosod cyllidebau addas yn unol â'r adnoddau y gellir disgwyl iddyn nhw fod ar gael. Mae'r cyllidebau a'r cynlluniau busnes mwy hir-dymor yn sicrhau bod yna amser ac adnoddau i ailstrwythuro os digwydd i'r hinsawdd economaidd waethygu neu os caiff un o'r prif ffrydiau nawdd ei cholli.

Bu'r ymddiriedolwyr yn flaengar a gweithgar wrth reoli'r risgiau sydd ynghlwm â cholli incwm – ac maent yn parhau i weithredu yn y modd hwnnw. Sefydlwyd amrywiaeth o

incymau masnach – bar/caffi llwyddiannus, siop yr oriel, ystafelloedd i'w llogi a gwasanaethau croeso – ac fe gaiff cyfleoedd eraill eu hystyried a'u hadolygu'n barhaol. Mae Chapter hefyd yn cadw gorddrafft er mwyn rheoli anghenion arian parod yn y byrdymor.

Cyfansoddiad

Mae Chapter (Cardiff) Limited yn gwmni wedi'i gyfyngu gan warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i rheoli gan Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithas. Rhif cofrestru'r cwmni yw 1005570 a'r rhif elusen gofrestredig yw 500813.

Strwythur a rheolaeth

Mae grŵp Chapter yn cynnwys dau gwmni cyfyngedig. Mae'r rhiant-gwmni, Chapter (Cardiff) Limited, yn elusen a sefydlwyd ym 1971. Cafodd yr is-gwmni, y mae'r elusen yn berchen arni'n gyfan-gwbl, Chapter Trading Limited, ei ymgorffori ar 1 Mawrth 2007 er mwyn gweithredu caffi/bar Chapter.

Mae bwrdd rheoli'r elusen yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, ac fe gynhelir cyfarfodydd yr is-bwyllgorau yn fisol. Mae yna gyfanswm o 20 cyfarfod bob blwyddyn.

Mae Chapter yn recriwtio aelodau newydd o'r bwrdd trwy gyfuniad o hysbysebu, hela pennau, rhwydweithio ac argymhellion. Caiff aelodau newydd, wedi'u recriwtio yn ystod y flwyddyn, eu cyfethol cyn i aelodau'r bwrdd bleidleisio i'w hethol nhw neu beidio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gall aelodau enwebu unigolion ar gyfer eu hethol i'r bwrdd hefyd. Cyn cael eu penodi caiff aelodau arfaethedig y bwrdd eu cyf-weld ac maent yn derbyn pecyn cyflwyniad. Cânt eu gwahodd i fynychu cyfarfod fel arsylwyr ac i weld cyfleusterau Chapter.

Cyfarwyddwr Chapter yw prif weithredwr yr elusen; fe'i penodir ef gan y bwrdd ac y mae'n atebol iddyn nhw. Mae'r bwrdd yn dirprwyo penderfyniadau busnes ac artistig i'r cyfarwyddwr, sydd yn eu dirprwyo nhw, yn ei dro, i'r penaethiaid adran. Mae'r penaethiaid adran yn gyfrifol am eu meysydd penodol nhw ac mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb corfforaethol dros y sefydliad cyfan. Mae'r rheolwyr hyn yn cyfarfod yn ffurfiol â'r cyfarwyddwr yn wythnosol. Mae'r cyfarwyddwr a'r cyfarwyddwr cyllid yn cyfarfod â'r bwrdd bob deufis, â'r is-bwyllgorau bob mis, ac yn anffurfiol ag aelodau unigol y bwrdd yn wythnosol.

Mae Chapter yn cydweithio'n agos â sefydliadau ar hyd a lled Caerdydd, Cymru, y Deyrnas Gyfunol ac â phartneriaid rhyngwladol hefyd. Mae cydweithredu â sefydliadau eraill yn ffordd bwysig i'r elusen gyflawni'i hamcanion. Fel yr amrywiaeth yng ngweithgarwch Chapter, mae'r partneriaethau hyn hefyd yn amrywiol ac maent yn cynnwys cysylltiadau â sefydliadau celfyddydol eraill, grwpiau sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, asiantaethau cyhoeddus a darlledwyr. Mae'r elusen hefyd yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol trwy gysylltiadau â nifer o gymdeithasau proffesiynol yn Nheyrnas Gyfunol ac yn rhyngwladol.

Rheoli Risg

Archwiliodd y cyfarwyddwyr y risgiau y mae'r elusen yn eu hwynebu, yn ystyriaethau strategol, busnes a gweithredol ac maent yn cadarnhau y rhoddwyd systemau ar waith i sicrhau adroddiadau cyson fel y gellir gweithredu'n briodol i leihau'r peryglon hynny.

Mae asesu risg yn declyn pwysig y mae Chapter yn ei ddefnyddio i reoli gwaith y cwmni ar lefel y bwrdd, yr is-bwyllgorau a'r tîm rheoli staff. Mae gan benaethiaid adran gyfrifoldeb dros eu meysydd nhw ond hefyd gyfrifoldeb corfforaethol dros y sefydliad cyfan ac, yn y cyd-destun hwnnw, mae rheoli risg yn dasg gyfun.

Cafodd y strategaeth reoli risg ei hadolygu a'i diweddaru ddiwethaf gan yr ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2008.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol, yn unol â'r cyfreithiau a'r rheolau perthnasol.

Mae'r gyfraith ar gwmnïau'n galw ar i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn unol â'r ddeddf honno, rhaid i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sydd yn cyfateb i ofynion Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig y Deyrnas Gyfunol (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol a chyfreithiau perthnasol). Mae'r gyfraith yn mynnu bod datganiadau ariannol y grŵp a'r cwmni elusennol yn rhoi arolwg teg a chywir o drafodion y grŵp a'r cwmni elusennol ac o warged y grŵp dros y cyfnod penodol dan sylw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, gofynnir i'r ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu nhw'n gyson;
- wneud amcanion a phenderfyniadau sydd yn rhesymol a chall;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol, parthed unrhyw ddeunyddiau gaiff eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; ac i
- baratoi'r datganiadau ariannol ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i fodoli, oni bai y gellir tybio'n rhesymol na fydd y grŵp a'r cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyllidol fydd yn datgelu'n glir a chymharol gywir ar unrhyw adeg gyflwr ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y cofnodion yn parchu gofynion Companies Act 1985. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r grŵp ac felly am gymryd camau perthnasol i atal ac adnabod achosion o dwyllo ac anghysonderau eraill.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Hyd y gwyddant, mae'r ymddiriedolwyr yn nodi:

- nad oes yna wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad nad yw ar gael i archwilwyr yr elusen; a
- bod yr ymddiriedolwyr wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i ddod o hyd i unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r archwiliad ac i sicrhau bod yr archwilwyr wedi cael yr wybodaeth honno.

Archwilwyr

Rhoddir cynnig gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ailbenodi Gordon Sealey & Associates fel archwilwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Y ddarpariaeth i gwmnïau bychain

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r darpariaethau arbennig i gwmnïau bychain a nodir yn Rhan VII Companies Act 1985.

Swyddfa Gofrestredig:
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Heol y Farchnad
Treganna
Caerdydd CF5 1QE

Arwyddwyd trwy orchymyn yr ymddiriedolwyr:

JOHN MATTHEWS, CADEIRYDD

Ymddiriedolwr

10 MEDI 2008
Dyddiad

Aelodau'r bwrdd a chynghorwyr proffesiynol

Enw cofrestredig yr elusen	Chapter (Cardiff) Limited
Rhif elusen	500813
Rhif cofrestredig y cwmni	1005570

Ymddiriedolwyr a dyddiadau penodi
At bwrpas y gyfraith elusennol, cyfarwyddwyr y cwmni elusennol ('yr Elusen') yw ei ymddiriedolwyr ac fe gyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel ymddiriedolwyr.

Eluned Haf	16/05/2007, ymddiswyddiad 26/07/07
Laura Canning	14/03/2007, ymddiswyddiad 16/07/08
Steve Garrett	14/03/2007
Samantha Maskrey	17/01/2007
Ciara Conlon	14/07/2004, ymddiswyddiad 26/08/08
Brian Drysdale	14/07/2004
Peter Cox	12/09/2001, ymddiswyddiad 16/01/08
Gareth Powell	12/09/2001
Vaughan Roderick	14/07/1997, ymddiswyddiad 12/09/07
Kate Long	12/05/1997, ymddiswyddiad 12/09/07
Paul Devitt	01/12/1996, ymddiswyddiad 12/09/07
Peter Phillips	01/06/1992, ymddiswyddiad 12/09/07
Marc Evans	16/03/1992, ymddiswyddiad 12/09/07
Angela Gidden	12/09/2007
Robert Chapman	12/09/2007
John Matthews	12/09/2007
Elin Wyn	12/09/2007

Ysgrifenyddes	Susan Powell	
Uwch-reolwyr	Janek Alexander	Cyfarwyddwr
	Mark Davies	Cyfarwyddwr Cyllid
Swyddfa gofrestredig	Canolfan Gelfyddydau Chapter Heol y Farchnad Treganna Caerdydd CF5 1QE	
Archwilwyr	Gordon Sealey & Associates Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig Tŷ Tudor 16 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ	
Banc	Lloyds TSB Bank plc 514 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen Caerdydd CF5 1BL	

Adroddiad yr archwilwyr

Cynhaliwyd archwiliad o ddatganiadau ariannol (y "datganiadau ariannol") grŵp ac elusen Chapter (Cardiff) Limited ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2008, sydd yn cynnwys y datganiad cyfunol o drafodion ariannol, y cyfrif incwm a gwariant, mantolenni cyfunol a mantolen y rhiant-gwmni a nodiadau cysylltiol. Paratowyd y datganiadau hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ynddynt.

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol, fel corff, yn unol ag Adran 235 Companies Act 1985. Cwblhawyd y gwaith archwilio fel y gallwn wneud adroddiad i aelodau'r cwmni elusennol ar y materion hynny y mae'r gyfraith yn gofyn i ni'u nodi mewn adroddiad archwiliwr. Mae'r gyfraith yn gofyn i ni nodi holl drafodion y cwmni elusennol mewn adroddiad archwilio, i'w ddefnyddio i'r perwyl hwnnw'n unig. Bwriedir yr adroddiad ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig. Hyd eithaf y gyfraith, nid oes gennym gyfrifoldeb at unrhyw un arall ar wahân i'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Mae cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr (sydd yn gweithredu hefyd fel cyfarwyddwyr Chapter (Cardiff) Limited at bwrpasau'r gyfraith ar gwmnïau) dros baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol (Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig y Deyrnas Gyfunol), wedi'u nodi yn y Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 10.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DG ac Iwerddon).

Rydym yn adrodd yn y fan hon ein barn ni ar ba un ai yw'r datganiadau ariannol yn arolwg teg a chywir ac a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion Companies Act 1985, a pha un ai yw'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, nodwn ein barn parthed y cofnodion a gadwyd gan y cwmni elusennol, pa un ai ydynt yn gofnodion trylwyr ai peidio, a pha un ai a dderbyniwyd gennym ni yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd yn angenrheidiol er mwyn galluogi i ni gynnal ein harchwiliad, neu os cafodd gwybodaeth ynglŷn â thaliadau i ymddiriedolwyr a thrafodion eraill eu celu.

Darllenwn yr wybodaeth ategol a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth ategol hon yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn unig. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad ni os down i wybod am unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau rhwng y wybodaeth hon a'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym ddyletswyddau o gwbl parthed unrhyw wybodaeth arall.

Seiliau i farn yr archwilwyr

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon) a gyhoeddir gan Fwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad hefyd yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth yn ymwneud â'r symiau a'r wybodaeth a gyflwynir

yn y datganiadau ariannol. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a wnaed gan yr ymddiriedolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol a pha un ai a yw'r polisïau cyfrifyddol yn addas ar gyfer y grŵp a'r cwmni elusennol, pa un ai ydynt wedi'u gweithredu'n gyson a pha un ai yw'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i datgelu.

Fe gynlluniwyd yr archwiliad, a'i weithredu, fel y gallem weld yr holl wybodaeth a'r esboniadau y barnem ni'u bod yn angenrheidiol er mwyn i ni gael tystiolaeth ddigonol i allu nodi'n hyderus nad yw'r datganiadau ariannol yn gamarweiniol, naill ai trwy fwriad twyllodrus neu trwy gamgymeriad. Wrth ffurfio'n barn, aethom ati i werthuso hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau yn olwg teg a chywir, yn unol ag Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig y Deyrnas Gyfunol, o gyflwr ariannol y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2008 ac o'i adnoddau incwm a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant yn y flwyddyn newydd ddod i ben;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â Companies Act 1985; ac
- mae'r wybodaeth a gyflwynir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

.....

Gordon Sealey & Associates
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Llawr 1af, Tŷ Tudor
16 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad: .....

DATGANIAD CYFUNOL O DRAFODION ARIANNOL (YN CYNNWYS Y CYFRIF INCWM & GWARIANT) AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31AIN MAWRTH 2008

	Nodyn	Cronfa Ddigyfyngiad	Cronfa Gyfyngedig	Cyfanswm 2008	Cyfanswm 2007
Adnoddau Incwm		**£**	**£**	**£**	**£**
Adnoddau'n deillio o arian a enillwyd					
Incwm gwirfoddol	*2*	1,890,752	223,934	2,114,686	2,051,167
Adnoddau'n deillio o weithgareddau elusennol	*3*	271,967	-	271,967	267,705
Incwm buddsoddiadau – llog a enillwyd		747	-	747	-
Cyfanswm Adnoddau Incwm		2,163,466	223,934	2,387,400	2,318,872
Adnoddau a Wariwyd					
Costau ennill arian					
Costau ennill arian gwirfoddol	*4*	1,256,452	-	1,256,452	1,162,453
Gweithgareddau Elusennol	*5*	924,415	70,750	995,165	992,483
Costau Rheolaeth	*6*	61,579	-	61,579	68,533
Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd		2,242,446	70,750	2,313,196	2,223,469
Net (Taliadau allan)/Adnoddau Incwm A Net (Gwariant)/Incwm Blynyddol		(78,980)	153,184	74,204	95,403
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	*19*	40,667	(40,667)	-	-
Symudiad net yn y cronfeydd		(38,313)	112,517	74,204	95,403
Cyfanswm adnoddau a gariwyd ymlaen		403,194	570,400	973,594	878,191
Cyfanswm adnoddau a gariwyd drosodd		364,881	682,917	1,047,798	973,594

Mae'r datganiad o drafodion ariannol yn cynnwys pob elw a cholled yn y flwyddyn ac felly ddatganiad o'r cyfanswm.

Mae'r symiau uchod yn gysylltiedig a gweithgarwch parhaol

MANTOLENNI'R CWMNI & MANTOLEN GYFUNOL, 31AIN MAWRTH 2008

		Grŵp	Elusen	
		2008	2008	2007
	Nodyn	£	£	£
Asedau nad ydyn nhw'n gyfredol				
Asedau sefydlog diriaethol	*10*	1,388,737	1,388,737	1,091,626
Buddsoddiadau	*11*	-	2	2
		1,388,737	1,388,739	1,091,628
Asedau cyfredol				
Stoc	*13*	16,323	6,042	18,016
Credydwyr	*14*	166,164	145,655	175,593
Mantolenni banc ac arian parod		26,566	4,223	4,072
		209,053	155,920	197,681
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	*15*	549,992	496,861	315,715
Dyledion cyfredol net		(340,939)	(340,941)	(118,034)
Cyfanswm asedau namyn dyledion cyfredol		1,047,798	1,047,798	973,594
Cronfeydd				
Digyfyngiad		364,881	364,881	403,194
Cyfyngedig	*19*	682,917	682,917	570,400
		1,047,798	1,047,798	973,594

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig a wneir i gwmnïau bychan yn Rhan VII Companies Act 1985.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan aelodau'r pwyllgor ar 10 MEDI 2008
ac fe'u harwyddir nhw ar ran y pwyllgor gan:

……Ymddiriedolwr ……Ymddiriedolwr

GARETH POWELL
……(Enw)

JOHN MATTHEWS
……(Enw)

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL DDAETH I BEN 31AIN MAWRTH 2008

Polisïau Cyfrifo

Seiliau cyfrifo
Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol perthnasol, y Statement of Recommended Practice (SORP), 'Accounting and Reporting for Charities', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005 (SORP 2005) a Companies Act 1985.

Sail y cyfuno
Mae'r datganiadau ariannol cyfunol hyn yn cynnwys datganiadau ariannol Chapter (Cardiff) Limited ("y cwmni elusennol") a Chapter Trading Limited, is-gwmni masnachol y mae Chapter yn berchen arno'n gyfan-gwbl, hyd at 31 Mawrth 2008.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyfuno canlyniadau'r elusen a'r is-gwmni llinell am linell.

Datgelir canlyniadau masnachu'r is-gwmni yn nodyn 12 y datganiadau ariannol hyn.

Yn unol â darpariaeth s230 Companies Act 1985 a pharagraff 397 SORP, mae'r elusen wedi'i heithrio o'r angen i gyflwyno cyfrif incwm a gwariant a Datganiad o Drafodion Ariannol.

Datganiad Llif Arian
Manteisiodd yr ymddiriedolwyr ar yr eithriad yn Financial Reporting Standard rhif 1 (diwygiedig) sydd yn galluogi iddynt beidio â chynnwys datganiad llif arian yn y datganiadau ariannol ar y sail bod yr elusen yn fach.

Grantiau
Nodir grantiau yng nghyfrifon y blynyddoedd perthnasol.

Mae grantiau cyfalaf i ariannu cost asedau sefydlog wedi'u hychwanegu i gyfansymiau'r gronfa gyfyngedig ar gyfer y cyfnod y derbyniwyd y grant; caiff yr arian ei ryddhau i mewn i'r Datganiadau o Drafodion Ariannol mewn taliadau rhannol cyfartal, a hynny dros gyfnod bywyd (arfaethedig) yr asedau perthnasol .

Rhoddion
Caiff rhoddion eu hychwanegu i'r cyfrifon yn y flwyddyn y daw'r elusen i wybod amdanynt.

Asedau sefydlog
Caiff asedau sefydlog eu cofnodi yn y lle cyntaf am y gost.

Dibrisiad
Cyfrifir dibrisiad fel ag i ddileu cost ased, namyn amcangyfrif o'i werth gweddilliol, dros gyfnod bywyd economaidd yr ased hwnnw fel a ganlyn:

Tir rhyddfraint	Llinell syth 0 %
Adeiladau rhyddfraint	Llinell syth 2%
Adeiladau prydles	Llinell syth 4%
Gosodiadau ac addurniadau	Llinell syth 20%

Ni chodir dibrisiant ar y tir rhyddfraint oherwydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, mae gwerth cyfredol yr eiddo yn uwch na'r gwerth ar y farchnad a nodir ar gyfer yr eiddo yn y cyfrifon.

Adnoddau a wariwyd
Cynhwysir adnoddau a wariwyd yn y datganiad o weithgarwch ariannol ar sail croniadau.

Mae peth gwariant yn deillio'n benodol o weithgareddau ac fe gynhwysir hwn yn y costau sydd yn berthnasol i'r gweithgaredd hwnnw. Pan na ellir cyplysu cost â gweithgaredd penodol, maent wedi'u cynnwys ar sail sydd yn gyson â defnydd o'r adnodd hwnnw.

2. Incwm gwirfoddol

	Arian Digyfyngiad	Arian Cyfyngedig	Cyfanswm Arian 2008	Cyfanswm Arian 2007
	£	£	£	£
Rhoddion	8,241	13,428	21,669	7,473
Grantiau a dderbyniwyd				
Grant Refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru	638,268	34,865	673,133	672,000
Grant Cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru	-	14,373	14,373	28,780
Grant Cynaliadwyedd Cyngor Celfyddydau Cymru	-	-	-	22,000
Grant Refeniw Cyngor Sir Caerdydd	25,411	-	25,411	25,411
Grant Cyfalaf Ailddatblygu Cyngor Celfyddydau Cymru	-	125,383	125,383	108,942
Asiantaeth Ffilm Cymru	41,000	-	41,000	45,700
Henry Moore Foundation	-	10,000	10,000	-
Calouste Gulbenkian	-	20,000	20,000	-
Europa	8,468	2,885	11,353	10,656
The International 3	-	1,000	1,000	-
UWIC	-	2,000	2,000	-
Grantiau eraill	-	-	-	12,461
Lloyds TSB Foundation	-	-	-	18,090
	713,147	210,506	923,653	944,040
Adnoddau incwm eraill				
Incwm gan gyfleusterau ac eiddo	245,275	-	245,275	246,906
Gweithredu'r caffi, bariau a siop yr oriel	924,089	-	924,089	852,748
	1,169,364	-	1,169,364	1,099,654
	1,890,752	223,934	2,114,686	2,051,167

3. Adnoddau sydd yn deillio o weithgarwch elusennol

	Arian Digyfyngiad	Arian Cyfyngedig	Cyfanswm Arian 2008	Cyfanswm Arian 2007
	£	£	£	£
Sinema	202,143	-	202,143	184,248
Oriel	1,120	-	1,120	1,746
Theatr	68,704	-	68,704	81,711
	271,967	-	271,967	267,705

4. Costau ennill arian gwirfoddol

	Cyfanswm 2008 £	Cyfanswm 2007 £
Costau codi arian – grantiau a rhoddion	79,481	83,737
Costau incwm o'r cyfleusterau a'r eiddo	247,430	252,519
Gweithrediad y caffi, bar & siop yr oriel	929,541	826,197
	1,256,452	1,162,453

Daw'r gwariant hwn i gyd o'r cronfeydd arian digyfyngiad.

5. Costau gweithgarwch elusennol yn ôl y math o weithgarwch

	Canolfan £	Costau Cefnogi £	Cyfanswm arian 2008 £	Cyfanswm arian 2007 £
Sinema	376,239	27,199	403,438	397,584
Oriel	251,632	27,199	278,831	263,772
Theatr	272,097	40,799	312,896	331,127
	899,968	95,197	995,165	992,483

Mae'r cyfanswm gwariant yn 2008, sef £995,165, yn cynnwys £924,415 o'r gronfa ddigyfyngiad a £70,750 o'r gronfa ag arni gyfyngiadau.

6. Costau rheolaeth

	Cyfanswm 2008 £	Cyfanswm 2007 £
Ffioedd archwilio	5,229	4,625
Ffioedd cyfreithiol	2,490	2,623
Ffioedd proffesiynol	2,840	4,654
Trwyddedau	10,083	10,824
Costau'r swyddfa gyffredinol a'r swyddfa gyllid	40,937	45,807
	61,579	68,533

Daw'r gwariant hwn i gyd o'r gronfa ddigyfyngiad.

7. Cost talu gweithwyr	**2008**	**2007**
	£	**£**
Cyflogau	1,035,051	951,292
Costau nawdd cymdeithasol	78,557	71,017
	Nifer	*Nifer*
Nifer o weithwyr ar gyfartaledd	110	95

Ni dderbyniodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2007: £Nil) ac ni thalwyd cyflogau na chostau i unrhyw rai eraill yn ystod y flwyddyn (2007: £Nil).

8. Gwahaniaethau net yn y cronfeydd

		2008	**2007**
Gwahaniaethau net yn y cronfeydd ar ôl costau:		**£**	**£**
Hurio ar delerau'r les gweithredu -	- eraill	-	6,797
	- tir & adeiladau	11,800	11,800
Dibrisiad – asedau yn eiddo'r cwmni		100,485	99,585
Tâl yr archwilwyr		8,000	4,100

9. Trethiant

Nid yw'r cwmni, sydd yn elusen gofrestredig, yn agored i dreth ar yr incwm net a ddaw yn sgil ei gweithgareddau. Nid oes gan yr is-gwmni, Chapter Trading Limited, unrhyw dreth gorfforaethol i'w thalu ar gyfer y cyfnod dan sylw.

10. Asedau sefydlog diriaethol– Grŵp ac Elusen

	Tir & Adeiladau Rhyddfraint	Gwelliannau i adeiladau rhyddfraint	Adeiladau prydles	Gosodiadau& Addurniadau	Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Cost					
Ar 1 Ebrill 2007	555,993	160,521	1,036,847	839,060	2,592,421
Ychwanegion	-	350,514	-	47,082	397,596
Ar 31 Mawrth 2008	555,993	511,035	1,036,847	886,142	2,990,017
Dibrisiad					
Ar 1 Ebrill 2007	128,353	-	654,309	718,133	1,500,795
Cost y flwyddyn hon	10,448	-	40,846	49,191	100,485
Ar 31 Mawrth 2008	138,801	-	695,155	767,324	1,601,280
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2008	417,192	511,035	341,692	118,818	1,388,737
Ar 31 Mawrth 2007	427,640	160,521	382,538	120,927	1,091,626

Fel y nodir yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr, cychwynnodd y Cwmni waith adnewyddu gwerth £3.3m ar rannau helaeth o brif safle canolfan y celfyddydau. Mae'r costau hyd yn hyn wedi'u cynnwys uchod fel 'gwelliannau i adeiladau prydles'. Caiff yr asedau hyn eu dibrisio, gan gychwyn ar y dyddiad comisiynu - yn 2009 mae'n debyg.

11. Buddsoddiadau

Mae'r cwmni'n berchen ar 100% o ddyroddiadau cyfalaf Chapter Trading Limited, cwmni wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr. Prif weithgarwch y cwmni hwn yw gweithredu'r caffi/bar yn Chapter.

12. Canlyniadau masnachu'r is-gwmni

	2008 **£**
Trosiant	890,903
Cost gwerthiannau	372,739
Elw gros	518,164
Gweinyddiaeth a chostau eraill	364,257
Elw masnachol	153,907
Llog yn daladwy	747
Incwm net	154,654
Taliad Cymorth Rhodd i Chapter (Cardiff) Limited	65,713
Ffi rheoli Chapter (Cardiff) Limited	88,941
Elw blynyddol a gedwir	-

Roedd asedau a dyledion yr is-gwmni fel a ganlyn:

	2008 **£**
Asedau cyfredol	174,643
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	174,641
Asedau net/cronfeydd cyfranddalwyr	2

13. Stociau	**Grŵp**	**Elusen**	
	2008	**2008**	**2007**
	£	**£**	**£**
Caffi & Bar	10,281	-	9,895
Siop yr oriel	6,042	6,042	8,121
	16,323	6,042	18,016

14. Dyledwyr

	Grŵp	Elusen	
	2008	**2008**	**2007**
	£	**£**	**£**
Dyledwyr masnachol	115,573	97,008	80,980
Blaendaliadau ac incwm cronedig	15,946	15,946	37,491
Dyledwyr eraill	34,645	32,701	57,122
	166,164	145,655	175,593

15. Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Grŵp	Elusen	
	2008	**2008**	**2007**
	£	**£**	**£**
Benthyciad banc a gorddrafft	121,865	121,865	56,339
Credydwyr masnachol	320,979	244,733	141,930
Yn deillio o fentrau'r is-gwmni	-	55,866	-
Trethiant a nawdd cymdeithasol	52,821	22,432	50,173
Credydwyr eraill	5,454	3,092	4,789
Croniadau ac incwm gohiriedig	48,873	48,873	62,484
	549,992	496,861	315,715

16. Benthyg gwarantedig – Grŵp ac Elusen

	2008	2007
	£	£
Gorddrafft banc	121,865	53,993
Benthyciad banc	-	2,346
	121,865	56,339
Namyn symiau sydd yn ddyledus o fewn blwyddyn	(121,865)	(56,339)
Symiau'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn	-	-
Gorddrafft banc		
O fewn blwyddyn neu ar gais	121,865	53,993
Ad-daladwy mewn rhan-daliadau		
O fewn blwyddyn	-	2,346
Ymhen dwy i bum mlynedd	-	-
Ymhen mwy na phum mlynedd	-	-
	-	2,346

Ad-dalwyd y benthyciad banc yn llawn ym mis Mehefin 2007.

17. Ymrwymiadau prydles – Grŵp ac Elusen

	2008	2007
	£	£
Yn dod i ben:		
O fewn dwy – bum mlynedd	-	9,943
Ymhen mwy na phum mlynedd	11,800	11,800
	11,800	21,743

18. Cyfalaf cyfranddaliadau

Mae'r elusen wedi'i chyfyngu trwy warant ac nid oes ganddi unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau.

19. Cronfeydd ag arnynt gyfyngiadau – Grŵp ac Elusen

	Ar ddechrau'r flwyddyn	Trosglwyddiadau arian Adnoddau incwm	Trosglwyddiad i gronfa incwm ddigyfyngiad	Adnoddau gwariant	Ar ddiwedd y flwyddyn
	£	£		£	£
Grantiau cyfalaf					
Grantiau adnewyddu - prydles – cyn 1990	134,264	-	(22,378)	-	111,886
Grantiau adnewyddu - rhyddfraint – 1994-1996	253,956	-	(7,054)	-	246,902
Grantiau adnewyddu - prydles - 2002-2004	38,804	-	(2,042)	-	36,762
Grant cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru 2006	34,434	14,373	(9,193)	-	39,614
Nawdd adnewyddu prydles CCC 2007-2008	108,942	125,383	-	-	234,325
	570,400	139,756	(40,667)	-	669,489
Incwm gwirfoddol					
Nawdd prosiect - grantiau	-	70,750	-	(70,750)	-
Ailddatblygiad – nawdd a rhoddion	-	13,428	-	-	13,428
	-	84,178	-	(70,750)	13,428
Cyfansymiau	570,400	223,934	(40,667)	(70,750)	682,917

Y trosglwyddiad i gronfeydd incwm digyfyngiad yw'r rhyddhau blynyddol o grantiau cyfalaf i SOFA, er mwyn ateb cost dibrisiant yr asedau sefydlog hyn.

Grantiau adnewyddu – prydles - cyn 1990

Trosglwyddwyd y grantiau hyn i gronfa grog ac maent yn cael eu cymryd yn awr mewn rhan-daliadau cyfartal dros gyfnod o 25 mlynedd er mwyn ateb cost dibrisiant y gwelliannau prydles.

Grantiau adnewyddu – rhyddfraint – 1994-1996

Trosglwyddwyd y grantiau hyn i gronfa grog ac maent yn cael eu cymryd yn awr mewn rhan-daliadau cyfartal dros gyfnod o 50 mlynedd er mwyn ateb cost dibrisiant y gwelliannau rhyddfraint.

Grantiau adnewyddu - prydles - 2002-2004

Trosglwyddwyd grantiau gan yr ERDF, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Caerdydd ac Abbey National er mwyn ariannu cost adnewyddu Adain Orllewinol y ganolfan gelfyddydau, i'r golofn grantiau cyfalaf ag arnyn nhw gyfyngiadau; maent yn cael eu trosglwyddo i'r golofn incwm nawr dros yr un cyfnod o amser â dibrisiant yr asedau a ariannwyd gan y grantiau.

Grant cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru 2006

Trosglwyddwyd y grant gan gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prynu asedau sefydlog (yn gysylltiedig â'r cynllun Cynaliadwyedd) i'r golofn grantiau cyfalaf cyfyngedig ac mae'n cael ei drosglwyddo i'r golofn incwm nawr dros yr un cyfnod â dibrisiant yr asedau a brynwyd gyda'r arian

grant hwn.

Nawdd adnewyddu prydles CCC 2007-2008
Trosglwyddwyd y grantiau hyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer adnewyddiad presennol y ganolfan gelfyddydau i'r golofn grantiau cyfalaf ac fe'u rhyddheir nhw i'r golofn incwm dros yr un cyfnod â dibrisiad yr asedau a ariennir gan y grantiau.

Nawdd prosiect

Mae'r rhain yn grantiau refeniw ar gyfer prosiectau creadigol penodol. Cânt eu cyfrif fel incwm gwirfoddol ac fe gânt eu gwario yn unol â chyfyngiadau'r rhoddwyr.

Ailddatblygiad – nawdd a rhoddion

Nawdd a rhoddion a dderbyniwyd ar gyfer y gwaith adnewyddu presennol ar y Ganolfan. Fe'u cyfyngir gan y rhoddwyr at y gwaith hwn ac fe'u trosglwyddir felly i'r golofn grantiau cyfalaf cyfyngedig a'u rhyddhau i'r golofn incwm dros yr un cyfnod â dibrisiad yr asedau a ariennir gan y nawdd hwn.

20. Dadansoddiad o'r mantolenni rhwng asedau net – Grŵp ac Elusen

	Asedau sefydlog diriaethol £	Asedau net presennol £	Cyfanswm £
Cronfeydd incwm cyfyngedig	682,917	NIL	682,917
Cronfeydd incwm digyfyngiad	705,822	(340,941)	364,881
Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a digyfyngiad	1,388,739	(340,941)	1,047,798

21. Partïon eraill

Derbyniodd Chapter (Cardiff) Limited £88,941 mewn ffioedd rheoli yn ystod y flwyddyn gan Chapter Trading Limited.

Cyfrannodd Chapter Trading Limited swm o £65,713 trwy Gymorth Rhodd i Chapter (Cardiff) Limited yn ystod y flwyddyn.

Nid oedd yna drafodion â phartïon eraill y mae angen eu datgelu yn ôl pwynt Rhif 8 y Safonau ar gyfer Datganiadau Cyllidol.

22. Ymrwymiadau cyfalaf

Ym mis Mai 2008 cytunodd yr Ymddiriedolwyr i fwrw 'mlaen â gwaith adnewyddu ar y Ganolfan yn Nhreganna, Caerdydd. Cyllideb gros y gwaith hwn yw £3.3m ac mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gynllun gwariant gwerth £3.1m hyd yn hyn (dyddiad yr adroddiad hwn).